Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ymateb, cyflwynwyd 15/01/2024

**1. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at gynnydd mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd?**

Ydym

**2. Beth yw eich rhesymau dros hyn?**

Mae'r Rhwydwaith yn croesawu'r cynigion yn y papur gwyn ac uchelgais Llywodraeth Cymru i ddod â digartrefedd i ben. Caiff y ffocws ar ddull mwy cydlynol o ran gwasanaethau cyhoeddus, gyda thimau craidd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio, ei gefnogi yn ogystal â'r ffocws ar fwy o weithio mewn partneriaeth gyda gwell mynediad i fecanweithiau atgyfeirio a'r cynigion i gynnwys grwpiau ychwanegol i'r rhestr o eithriadau yn nhermau cysylltiadau â chymunedau, yn arbennig cynnwys cyn-filwyr.

Fodd bynnag, mae yna bryderon ymhlith aelodau'r Rhwydwaith ynglŷn â'r gallu i gyflawni'r cynigion hyn, yn arbennig yn nhermau argaeledd stoc dai ar gyfer rhentu preifat a thai cymdeithasol a'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau presennol, yn ogystal â'r angen i sicrhau fod yna raglen gynhwysol o hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr.

**3. Yn eich barn chi, a oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried er mwyn sicrhau gwelliannau o ran atal digartrefedd a rhyddhau pobl o ddigartrefedd?**

Dim wedi eu canfod.

**4. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?**

Ydym

**5. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb?**

Ydym

**6. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig o gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol?**

Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi'r nod i symud tuag at ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn cytuno gyda'r cynigion a'r ychwanegiadau a awgrymwyd i'r rhestr o eithriadau, yn arbennig cynnwys cyn-filwyr a phobl sy'n cyd-fyw a'r rhai hynny sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn nodi'r ystyriaethau yn ymwneud â'r meini prawf "amgylchiadau arbennig" ar gyfer eithriadau a byddai'n cefnogi rhestr o'r grwpiau arfaethedig, yn

ogystal â chryfhau'r gwasanaeth sy'n ailgysylltu o'r dechrau i'r diwedd pan fo'n berthnasol. Un maes sy'n destun pryder i'r Rhwydwaith yw'r gofynion ychwanegol a'r costau y byddai'r cynigion hyn yn eu rhoi ar y gwasanaethau presennol a'r angen i ddeall effaith y newidiadau hyn cyn eu gweithredu.

**7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

Dim wedi eu canfod

**8. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i osod dyletswydd i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu ar nifer o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?**

Ydym. Mae'r Rhwydwaith yn cytuno â'r cynigion hyn mewn egwyddor gan eu bod yn nodi fod achosion a chanlyniadau digartrefedd yn eang ac mae angen ymateb ar y cyd gan amrywiaeth o bartneriaid. Byddai'r Rhwydwaith yn pwysleisio'r angen i ddatblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a chydlynol i gefnogi cydweithwyr i weithredu'r dull hwn yn ogystal â sefydlu dealltwriaeth glir o'r galw ychwanegol y byddai'n ei greu.

**9. Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig y byddai'r dyletswyddau i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu yn gymwys iddynt? A fyddech yn ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?**

Rydym yn cytuno â'r rhestr o gyrff perthnasol arfaethedig a'r ystyriaeth i gynnwys ysgolion. Rydym hefyd yn cytuno gyda'r nod a awgrymir i gynnwys cyrff nad ydynt wedi eu datganoli - fel sydd wedi eu rhestru - er mwyn hyrwyddo dull partneriaeth ar y cyd i leihau'r lefelau o ddigartrefedd.

**10. Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd?**

Ydym

**11. Pa fesurau ymarferol y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu weithio'n effeithiol? Gofynnwn ichi ystyried anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant.**

Bydd y symudiad tuag at ddull ehangach yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol ac arweiniad i sicrhau fod yna ddull cyson gan yr holl fudd-ddeiliaid ac i sicrhau fod yna ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau.

**12. Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu, mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i gyflwyno gofyniad i gydgysylltu achosion yn well ar gyfer pobl ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn?**

Mae’r Rhwydwaith yn croesawu’r cynnig hwn gan fod unigolion gydag anghenion cymhleth angen mynediad i wasanaethau i drefnu eu bywydau i gynnal eu llety. Caiff y nod i ehangu hyn i gyfrifoldeb gwasanaethau cyhoeddus ehangach ei gefnogi’n llawn gan y Rhwydwaith gan fod yna wir bryder ar draws y Cynghorau yng Nghymru ar hyn o bryd yn ymwneud â chynnal y lefelau presennol o ran darpariaeth gwasanaeth ganddynt hwy eu hunain.

**13. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

Dim wedi eu canfod.

**14. A oes unrhyw grwpiau eraill o bobl, heb eu nodi yn yr adran hon, y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt yn eich barn chi, ac y mae angen gweithgarwch wedi'i dargedu ychwanegol i atal a lleihau digartrefedd o'r fath (rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn)?**

Dim wedi eu canfod.

**15. Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu leihau digartrefedd i'r grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn?**

Dim ychwanegol wedi ei ganfod.

**16. Mae ein cynigion ynglŷn â phlant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac yn egluro cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen gwaith datblygu polisi sylweddol er mwyn asesu ymarferoldeb hyn. Yn eich barn chi, beth yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem baratoi i'w lliniaru?**

Tra croesawir nod y cynigion bydd y prif heriau, yn ymwneud â’r stoc dai sydd ar gael a gosod deddfwriaeth ychwanegol, yn ychwanegu at ddarpariaeth gwasanaeth sydd eisoes wedi ei ymestyn a allai effeithio ar lefelau gwasanaeth presennol ac ar y rhai hynny sydd angen cymorth.

**17. A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael cymorth ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth yn rhagor y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?**

Rydym yn cytuno gyda’r cynigion i gryfhau cyfrifoldebau rhianta corfforaethol presennol er mwyn darparu cefnogaeth effeithiol ond wrth wneud hynny mae angen cydnabyddiaeth o’r pwysau a’r heriau presennol ar ddarpariaeth gwasanaeth a nod ehangach y ddeddfwriaeth i sicrhau fod angen dull mwy cydlynol fel nad yng nghylch gwaith yr awdurdod lleol yn unig mae’r ffocws ar gefnogi unigolion.

**18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?**

Rydym yn cytuno y dylid caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed ddal contractau meddiannaeth a byddai'n adlewyrchu'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n bodoli eisoes i unigolion o fewn y grŵp oed hwn.

**19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

Dim wedi eu canfod.

**20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion byrdymor i wneud llety yn fwy addas?  Yn eich barn chi, a oes camau ychwanegol y dylid eu cymryd ar unwaith ar y diben hwn?**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda'r cynigion i gynyddu addasrwydd a safonau llety. Fodd bynnag, gan fod llwyddiant y dull hwn yn ddibynnol ar gapasiti lefelau'r stoc dai bresennol er mwyn bodloni'r lefelau addasrwydd newydd hyn, mae yna ansicrwydd a fydd y gallu i fodloni'r galw a grëwyd gan y safonau addasrwydd newydd hyn yn gyraeddadwy yn y tymor byr.

**21. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros am dai? Beth ydych chi'n credu fydd canlyniadau'r cynigion hyn?**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda'r cynnig i sicrhau y dyrennir llety addas hirdymor i bobl sy'n profi digartrefedd cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, fel mae'r ymgynghoriad yn ei nodi, nid oes digon o dai cymdeithasol i fodloni angen y rhai hynny ar restrau aros ac felly tra croesawir yr uchelgais, fe all y realiti olygu y gall y gofynion hyn greu pwysau ychwanegol a thensiwn rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, tra mai'r nod yw i wella'r berthynas honno.

**22. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth rydych chi'n rhagweld fydd canlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?**

Tra croesawir y cynigion yn ymwneud ag argaeledd tymor byr a'r mesurau diogelu cysylltiedig gan eu bod yn darparu hyblygrwydd a dewisiadau ychwanegol i gefnogi'r rhai hynny mewn angen, mae angen dealltwriaeth glir o'r galw ychwanegol y byddai hyn yn ei greu yn ogystal ag argaeledd y dewisiadau ychwanegol hyn o ran tai.

**23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn o ran mynediad at dai.  A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

Dim wedi eu canfod.

**24. I ba raddau, yn eich barn chi, y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn helpu i weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?**

Croesawir yr uchelgais a nodir yn y Papur Gwyn a chaiff nodau cyffredinol y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn eu cefnogi.  Fodd bynnag, fel mae'r ymgynghoriad yn ei bwysleisio, maent yn cael eu cynnig mewn amgylchedd sy'n eithriadol o heriol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae angen ystyriaeth ofalus o sut bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ar wasanaethau sydd eisoes wedi eu hymestyn. Mae'r Papur Gwyn yn nodi uchelgais glir am ddull mwy cynhwysol o leihau digartrefedd yng Nghymru a byddai'r Rhwydwaith yn awgrymu fod y dull cynhwysol hwn hefyd yn cael ei ystyried yn nhermau gweithredu'r cynigion hyn i sicrhau nad oes yna unrhyw effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn y maes hwn.

**25. Pa ysgogiadau/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl wrth atal digartrefedd?**

Dim wedi eu canfod.

**26. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?**

Dim wedi eu canfod.

**27. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?**
- **A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?**

Bydd y gallu i gael hawl i wybodaeth yn y Gymraeg yn helpu i leihau straen a gorbryder i'r rhai hynny sydd angen cefnogaeth i lywio'r prosesau sy'n ymwneud â hyn.

**28. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi:**

Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi'r uchelgais a'r egwyddorion a gynigir o fewn yr ymgynghoriad hwn, gyda'r nod o ddatblygu dull ar y cyd i leihau digartrefedd a'r mesurau i ehangu'r meini prawf ar gyfer cynhwysiant. Y prif bryder gan aelodau'r

Rhwydwaith yw'r gallu i gyflawni'r cynigion hyn o ystyried y pwysau a'r heriau ar wasanaethau presennol a lefel bresennol y stoc dai a fydd yn elfen ddiffiniol mewn cyflawni'r cynigion hyn. Gan gadw hyn mewn cof, mae aelodau'r Rhwydwaith wedi nodi er mwyn sicrhau'r llwyddiant gorau posibl y gellid cael dull graddol i weithredu'r cynigion hyn i leihau'r effaith ar wasanaethau presennol, darparu cefnogaeth effeithiol i'r rhai hynny sydd ei angen a chreu dull cynaliadwy hirdymor i leihau digartrefedd.

**29. Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Ydym

**30. Oes gennych chi ddiddordeb busnes yng Nghymru?**

Amherthnasol

**31. Rhowch ran gyntaf côd post eich cartref e.e. CF10**

Amherthnasol

**32. Rydych ar fin cyflwyno'ch ymateb. Gwnewch yn siŵr eich fod yn hapus gyda'ch atebion cyn danfon.**

Mark Brace, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

**33. Sefydliad**

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (sy'n cael ei gynnal gan CLILC). Dyma ymateb ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru sydd ag aelodaeth o'r 22 Cyngor, 4 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, 4 Heddlu, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Trydydd Sector, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Datblygwyd yr ymateb hwn yn dilyn digwyddiad ymgysylltu ar 12 Rhagfyr 2023. Fe all Aelodau o'r Rhwydwaith gyflwyno eu hymateb eu hunain gyda gwybodaeth leol a phwyntiau mwy penodol sy'n berthnasol iddynt yn benodol.

**34. Er mwyn gallu rhoi derbynneb i'ch ymateb, rhowch gyfeiriad e-bost dilys.**

cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk